**Man gwirio 3 i fan gwirio 4 (ST 202 904: Crib Mynydd Machen)**

- O fan gwirio 3, dilynwch y llwybr ar y chwith sy'n arwain i fyny i'r brif ffordd, croeswch y ffordd, ewch ar hyd y palmant a dilynwch y llwybr sy'n arwain i fyny'r rhiw ar y dde.
- Croeswch y ffordd a dilynwch y llwybr i fyny'r rhiw, trowch i'r chwith a dilynwch y trac i gomin Mynydd y Grug, gan fynd heibio i'r maes parcio yng nghyfeirnod grid **ST 170 928**, tuag at Fynydd Machen ar hyd Cefnffordd Cwm Rhymni.
- Mae'r llwybr yn mynd i'r chwith ychydig yng nghyfeirnod grid **ST 180 907.**
- Dilynwch y trac hwn i fan gwirio 4, yng nghyfeirnod grid **ST 202 904,** yn agos i'r gridiau gwartheg uwchlaw Coed John Hywel. (*Mae'r rhan hon yn eithaf gwlyb mewn mannau – mae hyn i gyd yn rhan o'r her.*)

**Man gwirio 4 i'r diwedd (Coleg Gwent)**

- O fan gwirio 4, dilynwch y trac tuag at Fynydd Machen, **ST 223 900** – mae'r piler triongli heibio i'r mast.
- O'r piler triongli, ewch i lawr y rhiw, i gyfeiriad y de-ddwyrain, a dilynwch nodwyr llwybr Taith Sirhywi i gyfeirnod grid **ST 231 897.** Trowch i'r chwith a dilynwch y trac. Ewch ymlaen ar hyd y trac hwn (peidiwch â throi wrth unrhyw gyffordd) hyd at y giât mochyn ar y dde, **ST 229 903**, gan ddilyn Taith y Gigfran. Ewch i'r cae ac i lawr y rhiw (ychydig i'r dde) i'r bont droed fach (sydd wrth y ffens ar y chwith) a'r giât mochyn sy'n arwain i'r bloc coedwigaeth.
- Dilynwch y llwybr hwn drwy'r goedwigaeth, gan groesi'r trac coedwigaeth sy'n mynd i lawr i Blackvein Road, sy'n arwain yn ôl i lawr i Barc Waunfawr a'r diwedd yn safle Coleg Gwent.

# TAITH TWMBARLWM

## DISGRIFIAD O'R LLWYBR 21 MILLTIR

**Rydyn ni'n eich cynghori chi i ddefnyddio mapiau OS Explorer 152/166, plotio'r cyfeirnodau grid a dilyn y disgrifiad o'r llwybr.**

***Amcangyfrif o'r amser cyffredinol ar gyfer y llwybr (wrth gerdded): 6–8 awr***

Bwystfil o lwybr (gydag uchder cyfunol sy'n fwy na dringo'r Wyddfa)… bydd y llwybr hunan-arwain 21 milltir o hyd yn mynd â chi drwy goetiroedd ysblennydd y cymoedd, tiroedd ffermio, ac ar draws rhostir agored. Os bydd y tywydd yn caniatáu, byddwch chi'n cael gweld nifer o olygfeydd gwych ar draws y Fwrdeistref Sirol tuag at Fannau Brycheiniog, dros Fae Caerdydd, Môr Hafren, Gwlad yr Haf a gogledd Dyfnaint, cyn dringo i fyny i, a thros, fryngaer oes haearn ysblennydd Twmbarlwm a thri o'r mannau uchaf yn y Fwrdeistref Sirol – Twmbarlwm (419m), Mynydd Machen (362m) a Mynydd Islwyn (312m).

Byddwch chi'n cerdded dros dir sy'n cael ei ffermio. Hyd yn oed ar dir comin agored, byddwch chi'n cwrdd â merlod, gwartheg a defaid, o bosibl gyda'u hepil. Byddwch yn ofalus wrth agosáu at dda byw. Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser. **Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser.**

**Mae rhannau o'r llwybr yn agored iawn – mewn tywydd garw, bydd gwelededd gwael. Rhaid i chi fod â dillad gwyntglos a/neu wrth-ddŵr, dillad cynnes a bwyd a diod, a bod yn hyderus wrth ddefnyddio map a chwmpawd.**

**Coleg Gwent i fan gwirio 1 (Twmbarlwm ST244 927)**

- O safle Coleg Gwent, croeswch y B4591 i Medart Street a rheilffordd Cwm Ebwy – byddwch yn ofalus wrth groesi'r ffordd.
- Croeswch reilffordd Cwm Ebwy ar y groesfan heb ei goruchwylio. **Rheilffordd weithredol yw hon – byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio'r groesfan reilffordd.**

- Dilynwch lwybr 47 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol i lwybr halio y gamlas, yna i bont y gamlas yng nghyfeirnod grid **ST 232 917.**
- Ewch dros bont y gamlas ac i fyny drwy'r coed. Ewch ymlaen i fyny'r rhiw, a lle mae'r llwybrau'n croesi, trowch i'r dde, croeswch y nant ac ewch i fyny'r rhiw gan ddilyn y nodwr llwybr. Byddwch yn ofalus wrth groesi'r llwybr beicio mynydd. Dilynwch y llwybr hwn hyd at ddod i ran ddisgynnol, fwy serth ar gornel y ffens ar y dde. Dilynwch y llwybr i lawr i'r nant fach, ac ar ei thraws, yn 'Sheep wash' ar y map.
- Ewch i fyny'r rhiw i'r gamfa ac i'r ffordd yng nghyfeirnod grid **ST 234 920.** Trowch i'r chwith ar y ffordd ac ewch ymlaen i fyny'r rhiw. Lle mae'r trac yn fforchio'n ddwy, ewch i'r dde a dilynwch y trac hwn o gwmpas i faes parcio Twmbarlwm a man gwirio 1.

**Man gwirio 1 i fan gwirio 2 (ST 213 936: trac coedwigaeth ar y ffordd i fyny Mynydd Islwyn)**

- O faes parcio Twmbarlwm, dilynwch y llwybr troed i'r comin ar Fynydd Henllys.
- Cadwch ar y comin, gan ddilyn trac wedi'i ddiffinio'n glir, a chadw'r goedwig a Ffordd Goedwig Cwmcarn ar y chwith.
- Dilynwch y trac hwn hyd at ymyl y goedwig, cyfeirnod grid **ST 260 955**.
- Ewch i'r chwith a dilynwch y llwybr garw i frig y cwm ar y chwith, cyfeirnod grid **ST 255 962**.
- O'r fan hon, dilynwch y llwybr ar hyd ymyl chwith y comin, hyd at gyrraedd llwybr amlwg, sathredig sy'n troi i'r dde, **ST 254 954**. Os dilynwch chi'r llwybr hwn ar draws y comin, bydd yn eich arwain chi i'r giât yn **ST 239 950** (y gornel dde).
- Dilynwch y llwybr i gyfeirnod grid **ST 233 948**, lle rydych chi'n troi i'r chwith ac yna i'r dde.
- Dilynwch y llwybr, gyda'r goedwig ar y chwith, i gyfeirnod grid **ST 228 945** lle mae'r llwybr yn mynd i lawr drwy'r goedwig.
- Ewch ymlaen ar hyd y llwybr hyd at gyrraedd Tribute Avenue, ewch ymlaen i George Street a throwch i'r dde.
- Ewch ymlaen ar hyd George Street a Park Street, i groesi Newport Road (heibio i'r lle golchi ceir a'r garej) a chroeswch yr A467 drwy'r danffordd.
- Ewch ar hyd Chapel Farm Terrace.
- Ewch ymlaen dros bont yr afon, trowch i'r dde gan ddilyn y ffordd dros y rheilffordd, ac yna trowch i'r chwith ac ewch i fyny'r llwybr i'r trac coedwigaeth a man gwirio 2, **ST 213 936**.

**Man gwirio 2 i fan gwirio 3 (ST 177 947: gwaith canhwyllau a melin yn Wyllie)**

- Ewch i fyny'r rhiw gan ddilyn nodwyr llwybr Taith y Gigfran i fyny tuag at y comin a Mynydd Islwyn.
- Ewch ymlaen ar hyd y llwybr tuag at y gamfa yng nghornel y cae, cyfeirnod grid **ST 201 938**, gan ddilyn nodwyr llwybr Taith y Gigfran o hyd.
- Ewch dros y gamfa hon, gan gadw'r wal ar y chwith a'i dilyn hyd at y gamfa nesaf. Dilynwch y llwybr tramwy hwn tuag at yr eglwys.
- Wrth gyrraedd y ffordd, trowch i'r chwith ac ewch ymlaen hyd at y tro nesaf ar y dde, trowch i lawr y trac fferm hwn, trwy'r giât ar y chwith i'r fferm, ac yna i lawr ar draws y cae, dros y gamfa, a thuag at y gronfa ddŵr segur.
- Croeswch y bont yng nghefn y gronfa ddŵr, ewch i'r chwith ychydig ac yna trowch i'r dde i'r llwybr uwch. **Cofiwch droi i'r dde – bydd cerddwyr y llwybr 15 milltir o hyd yn troi i'r chwith yn y fan hon.**
- Dilynwch y llwybr tramwy hwn hyd nes cyrraedd y lôn. Trowch i'r dde yn y lôn, a'i dilyn hyd nes cyrraedd Fferm Cae'r Llwyn.
- Ewch drwy'r giât mochyn, ychydig cyn y fferm, ac yna trowch i'r dde drwy'r giât nesaf a dilynwch y trac y tu ôl i'r fferm, sy'n arwain yn ôl i'r llwybr ceffylau.
- Ewch ar draws y cae, i'r giât yn y gornel bellaf, trowch i'r dde yn sydyn ac ewch dros y gamfa, i lawr trwy Fferm Tŷ Cerrig ac i'r lôn.
- Wrth gyrraedd y lôn, dilynwch y llwybr ar y chwith i lawr y rhiw, hyd nes cyrraedd yr ail lôn, ac yna trowch i'r dde i'r ffordd tuag at y felin, y siop ganhwyllau a man gwirio 3, cyfeirnod grid **ST 177 947**.